


PERTHYN

Tachwedd 2021

302



Mae'r dyfodol yn ein dwylo ni ... cychod yn cario negeseuon y dosbarth ieuencid i arweinwyr COP26

Gair gan y Gweinidog



Llun: Amelia Davies

Nef a daear, tir a môr
sydd yn datgan mawl ein Iôr:
fynni dithau, f'enaid, fod
yn y canol heb roi clod?

Dyna'r geiriau sydd wedi bod yn cyniwair yn
fy meddwl ar ddiwrnod olaf mis Hydref.
Geiriau Elfed yn ei gyfieithiad o emyn
Joachim Neander;

Gwellt y maes a dail y coed
sy'n ei ganmol ef erioed;
popeth hardd o dan y nef,
dyna waith ei fysedd ef.

Ac yna'r gwpld olaf;

wrth dy draed, O dysg i mi
beth wyf fi, a phwy wyt ti.

Mae yna reswm i'r 'cyniwair' yna, sef diwrnod cyntaf y gynhadledd COP26 yn ninas Glasgow. Ystyr COP yw 'Conference of the Parties', a'r 'parties' tan sylw yw'r gwledydd hynny sydd wedi arwyddo cytundeb UNFCCC (Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd). Digwyddodd hynny yn y flwyddyn 1994 a dyna esbonio'r 26 er bod y 26 bellach yn 27 oherwydd fe ddaeth y Covid a gwthio'r trefniadau i'r flwyddyn yma. Nid dyma'r fan i fanylu ond yn ystod y bythefnos nesaf fe fydd arweinyddion nifer o wledydd y byd yn trafod newid hinsawdd gyda'r nôd o gyrraedd cytundeb ar cyn lleihed a phosibl o allyriadau (emissions) carbon.

Agwedd arall ar y gynhadledd yw ei bod yn gyfle i weld beth sydd wedi digwydd yn ystod y bum mlynedd diwethaf ac yn arbennig felly yng nghyd destun addewidion. Addewidion ar greu polisiau ac addewidion ymarferol. Un o'r prif addewidion oedd sicrhau nad oedd y cynnydd yn nhymeredd y byd yn mynd tu hwnt i 1.5C ond methu fu'r hanes, a

chanlyniadau'r methaint hwnnw i'w gweld ym myd natur a'i effaith ar gymunedau a bywydau. Fe fydd y cyfryngau yn llawn gwybodaeth ac fe'ch anogaf i ddilyn y cyfan, ond am y tro dwi am gyfeirio at dri pheth.

YN GYNTAF, digwyddiad a drefnir gan Cymorth Cristnogol, Tearfund a Cafod ar Dachwedd y 6ed, Diwrnod Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd. Digwyddiad byd-eang gyda phrif raliau Cymru yn digwydd yng Nghaerdydd a Bangor. Pwrpas y raliau hyn fydd galw am 'gyfiawnder hinsawdd a sefyll mewn undod â'n brodyr a'n chworydd sydd yn wynebu effeithiau dwysaf yr argyfwng hinsawdd'. O ran patrwm, fe fydd yna Gyfarfod Gweddi i ddechrau, yna cyfle i gerdded yn arwydd o undod ac yn olaf, rali. Os am fwy o wybodaeth yna ewch i wefan Cymorth Cristnogol.

YN AIL, Polisi Amgylcheddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Yn dilyn proses ymgynghorol a chyfle ar lefel eglwys a henaduriaeth a Sasiwn, braf cael dweud bod y polisi hwn wedi ei dderbyn yng Nghymanfa Gyffredinol 2021. Mae'r ddogfen ar gael ac os hoffech gael copi yna dewch i gysylltiad. Fe fyddai'n wir dweud bod dwy wedd i'r polisi sef yr hyn all yr enwad ei wneud yn ganolog e.e parhau y polisi buddsoddiadau moesol all arwain i leihad mewn incwm a.y.y.b ac yna yr hyn allwn ni wneud yn lleol gyda'n adeiladau a'n ffordd o fyw fel Cristnogion. Nid rhywbeth i'w roi mewn ffeil neu dan sêd capal yw polisi swyddogol ond yn hytrach i'w weithredu a dyna'r her i ni fel Cristnogion sy'n ceisio byw ein bywydau dan gronglwyd yr Eglwys Bresbyteraidd

YN DRYDYDD, i mi mae emyn Elfed yn crynhoi y cyfan. Yn fuan iawn yn hanes y grefydd Gristnogol fe geiswyd rhoi trefn ar gredo, camgymeriad yn meddwl llawer un! Beth bynnag am hynny, pwysleiswyd mai sail unrhyw grêd oedd y ddealltwriaeth o Dduw yn nhermau perthynas â'r greadigaeth. Cyn sôn am ddim byd arall rhaid sôn am Dduw fel creawdwr ac er pa mor anodd deall hynny ar adegau, y mae'n ddealltwriaeth sy'n angor i unrhyw ddiffiniad o fywyd. O ganlyniad y ddealltwriaeth o ryfeddod, ac mae hynny'n amlwg y dyddiau yma wrth i liwiau tymhorol gyffwrdd ein meddyliau a'n calonnau ac o ganlyniad selio o'r newydd y ddealltwriaeth o gyfrifoldeb, trugaredd ac

atebolrwydd. Cyfrifoldeb tuag at yr hyn sy'n cynnal ac yn cadw bywyd, trugaredd tuag at y rhai sy'n dioddef oherwydd penderfyniadau a gweithredoedd barus dynolryw ac atebolrwydd o weld beth fydd canlyniadau hyn i gyd os parhawn i fyw bywydau heb unrhyw ystyriaeth i neb na dim. Mae'n fater o frys a bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn nhrafodaethau Glasgow.

I mi mae geiriau'r Iesu'n crynhoi y cyfan -

'Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddyinion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder.'

Gwnewch eich gorau!

Eifion.

Dyma Osian Gruffudd yn mwynhau diwrnod ei fedydd, a Celyn a Poli gyda'u rhieni ar ddiwrnod eu bedydd hwythau.



Newyddion

Cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion at Mona Bowen a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at Mona Chambers a Walford Gealey sydd yn parhau yn Ysbyty Bronglais. Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal.

Cofiwn amdanoch i gyd yn ein gweddïau

Bedydd

Yn ystod y gwasanaeth ar Hydref 17 bedyddiwyd Osian Wil Gruffudd gan ein Gweinidog Eifion Roberts – mab Garmon a Hannah Gruffudd a brawd Elliw a Lleuwen.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Phyllis Jones sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ystod mis Hydref.

Dymunwn yn dda i Glyndwr Griffiths pan fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 99 oed ar Dachwedd 25ain.

Newid Aelwyd

Dymunwn yn dda i Siwan a David Harrison a'u mab Lucas sydd wedi symud i'w cartref newydd yn Stryd Portland.

Dymuniadau gorau i Hefin Jones sydd wedi symud i fyw i Gaerdydd i fod yn agos at ei ferch Delyth a'i phriod Andrew. Mae'n braf ei weld yn ymuno â ni yn rhithiol ar Zoom.

Llongyfarchiadau i Gwerfyl Pierce Jones sydd wedi ei derbyn yn Gymrawd er Anrhydedd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Cynhyrchir rhifyn arbennig o Perthyn cyn bo hir yn crynhoi'r teyrngedau i'r rhai a gollwyd dros yr haf.

Capel Ebeneser



Cofion

Anfonwn ein cofion at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Cofiwn yn arbennig am y rhai sydd mewn cartrefi preswyl neu yn derbyn gofal yn eu cartrefi.

Gwasanaeth o addoliad

Ar brynhawn Sul Hydref 17 cynhaliwyd gwasanaeth yn y capel o dan ofal ein Gweinidog Eifion Roberts. Ar ddiwedd y gwasanaeth rhoddwyd cyfle i'r aelodau i fynegi eu teimladau ynghylch cynnal gwasanaethau yn y capel yn ystod yr wythnosau nesaf. Oherwydd ein bod ar drothwy misoedd Tachwedd a Rhagfyr a bod angen i bawb barhau i fod yn ofalus er mwyn cadw'n ddiogel cytunwyd i gynnal y gwasanaeth nesaf ar y trydydd Sul yn Ionawr (Ionawr 16) gan obeithio y bydd y sefyllfa'n gliriach erbyn hyn.


Mynegwyd fod croeso cynnes iawn i aelodau Ebeneser i ymuno yn y gwasanaethau yng Nghapel y Morfa neu yn rhithiol ar Zoom. Mae'r manylion yma yn Perthyn.

Diolch

Diolch i Tom Morgan sydd wedi bod yn brysur yn torri'r lawnt o flaen ac wrth ochr Ebeneser gan sicrhau fod y capel bob amser yn ymddangos yn daclus ac yn raenus. Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi bod yn cadw llygad ar yr adeilad yn gyson yn ystod y cyfnod clo.

Yr Ysgol Sul

Thema ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 3ydd oedd *Ffrwythau a Hadau Gobaith*. Dyna oedd thema'r gweithgareddau crefft a



gynhaliwyd yn y festri i baratoi at y gwasanaeth ac roedd gwaith y plant i'w weld ar y sgrin yn y capel ac yn rhithiol yn y cartrefi.

Cafwyd cyfle i ddiolch am ffrwythau'r greadigaeth a myfyrio ar ffrwythau'r tir da – sef *Ffrwythau'r Ysbryd* a gwelwyd ffilm gyfoes o *Ddameg yr Heuwr* oedd wedi ei gynhyrchu gan Gwyn Rhydderch.

Mae'r dosbarth ieuencid yn cyfarfod bob wythnos mewn lleoliad gwahanol yn yr awyr agored. Yn ystod eu trafodaethau ar thema Cymorth Cristnogol eleni, sef *Hadau Gobaith*, eu penderfyniad oedd hau hadau mewn blychau y tu allan i'r capel. Maent yn dechrau egino gan ddangos arwyddion o fywyd a gobaith. Yn briodol iawn bydd ein casgliad diolchgarwch yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol.





Yn briodol iawn bydd ein casgliad diolchgarwch yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Wrth ystyried pwysigrwydd trafodaethau COP26 dros goffi gosododd yr ieuencid eu negeseuon i arweinwyr y byd ar y cychod hyn gan obeithio y byddai effaith yr argyfwng amgylcheddol ar bobl dlotaf y byd yn cael ei ystyried ac y byddai trafodaethau'r gynhadledd yn dwyn ffrwyth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol



Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn RHAGFYR at Hywel Lloyd (hywel.lloyd6@gmail.com) erbyn dydd Gwener, 19 Tachwedd, os gwelwch yn dda.

Rhaglen DORCAS

Cefnogir gwaith chwiorydd yr enwad gan Raglen Dorcas, a grëwyd oherwydd dymuniad Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gynorthwyo merched ein capeli i rannu eu ffydd yn yr Arglwydd Iesu.

Thema Rhaglen Dorcas eleni yw *Myfi yw'r bugail da.*



Mae'r llyfr yn cynnwys Gwasanaethau, Astudiaethau Beiblaidd, Cynllun Darllen misol *Llewyrch I'm Llwybr* a gwybodaeth am brosiectau sydd wedi derbyn cefnogaeth ariannol oddi wrth gasgliadau cenhadol y chwiorydd – megis prosiect HIV Lesotho o dan arweiniad Dr. Graham Thomas a Ward K Ysbyty Durtlang Mizoram sydd yn gwneud gwaith ardderchog ymhlith rhai sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau ac yn cynorthwyo eu teuluoedd.

Prosiectau Gwaith Llaw.

Mae patrymau gwau yn y Llyfryn (e.e. Tedi Cysur a Blancedi Bach) y gellir eu cynnig i ward babanod a phlant mewn ysbyty.

Os oes rhywun yn dymuno cael copi o'r patrymau (neu'r llyfryn Myfi yw'r Bugail Da), os gwelwch yn dda a wnewch chi roi gwybod i Eleri. (*Mae rhai o'n haelodau eisoes wedi bod yn brysur iawn yn gwau!*)

Eleri Davies (612418)




Cylch Gweddi a Choffi

Bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom

Mae'r cyfarfodydd Gweddi a Choffi wedi ail-ddechrau ers dechrau mis Hydref ac yn cyfarfod bob dydd Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom.

Byddwn yn parhau â'r thema *Helaetha derfynau dy deyrnas* ac yn gwahodd rhai o bell ac agos i ymuno â ni o dro i dro i sôn am agwedd o'r thema.



Yn y cyfarfod cyntaf cafwyd sesiwn o rannu a chyfle i glywed am ymweliadau â lleoedd arbennig dros yr Haf.

Daeth Y Parch Carwyn Siddall atom yr wythnos ganlynol fel un o olygyddion newydd *Cristion* i sôn a am y gwaith o baratoi a chyhoeddi'r cylchgawn. Mae *Cristion* ar ei newydd wedd, mae'n lliwgar, yn ddiddorol ac yn eang ei apêl.

Mae pob rhifyn yn cynnwys cyfraniadau gan bob enwad a gynrychiolir ar y pwyllgor a thudalen i'r plant. Diolchwyd i Carwyn am gyflwyniad ardderchog

a mynegwyd ein gwerthfawrogiad o waith y tri Golygydd sydd yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm.

Edrychwn ymlaen at wahodd Aled Davies atom ddechrau Tachwedd i gyflwyno'r arlwy o lyfrau newydd at y Nadolig ac i gyfeirio at ei waith fel un o olygyddion *Cennad*.

Astudiaethau Ffydd a Phaned

Prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Y tymor hwn rydym yn astudio rhannau o'r Efengylau sydd yn sôn am fywyd a gwaith yr Arglwydd Iesu. Rhennir yr Astudiaethau yn dair adran - Pobl y Gwyrthiau, Pobl Gwahanol a Phobl y Gyfundrefn.

Mae pennawd i bob astudiaeth - dyma rai ohonynt: *Plentyn y Torthau*, *Pam Ofni?* "Dŵr, Dŵr", *Dwi ddim yn gweld!*

Fedwch chi ddyfalu pa hanesion ydyn nhw? Neu, gwell fyth, beth am ymuno ar bryhawn Gwener am 2 o'r gloch.?



Cinio Bara Caws

Cynhelir cinio bara caws Cytûn Waunfawr trwy gyfrwng Zoom ar Tachwedd 10fed am 1 o'r gloch. Er mwyn cael y linc i Zoom anfonwch eich enw a chyfeiriad ebost at Mairwen Williams williamsjoh4@aol.com cyn Tachwedd 5ed neu at Eleri Davies janeeleri@btinternet.com (612418) erbyn ddydd Llun Tachwedd 8fed fan pellaf.

Cyfraniadau i drysorydd Cymorth Cristnogol, Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF ar gyfer ei Cynllun Partneriaeth Cymunedol.

Cymdeithas y Morfa


Yn dilyn cynnal cyfarfodydd y Gymdeithas 2020/21 yn llwyddiannus iawn ar Zoom, penderfynwyd parhau â'r un drefn eto eleni. Croesawyd nifer dda o bobl i'r noson agoriadol (27 Medi) gan y Cadeirydd, Gwerfyl Pierce Jones. Diolchodd i Gareth a Nonna Owen am eu gwaith yn trefnu rhaglen y llynedd. Arweiniwyd mewn defosiwn gan Gareth Owen, cyn croesawu'r wraig wadd yr Athro Jane Aaron; ei phwnc oedd Cranogwen.

Cafwyd cyflwyniad difyr am fenyw arbennig iawn. Fel sawl un o fenywod Cymru, nid yw Cranogwen wedi cael sylw dyledus. Na phoener, mae cyfrol gan Jane i ymddangos yn 2022 a bydd cyfle i ddarllen ymhellach am y wraig flaengar, ddiddorol hon.



Diolchwyd i Jane gan Mary Olwen Owen. Llongyfarchwyd Gwerfyl ar ei gwneud yn Gymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth ac i Cynog Dafis am ei gyfrol ddiweddar - *Pantycelyn a'n picil ni heddiw* (Y Lolfa). Deunydd darllen difyr.

Yng nghyfarfod y Gymdeithas ar 11 Hydref, croesawyd gwestai ychydig yn bellach o Aberystwyth pan ddaeth yr Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts atom i roi sgwrs ddfyr iawn am ei gyfrol *Cyfri'n Cewri*, (Gwasg Prifysgol Cymru). Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Meurig Royles cyn i Gareth gyflwyno merch arbennig - Mary Warner neu Mary Wynn Davies cyn priodi, sef un o ferched Sydney Davies. Roedd Mary Warner yn fathemategydd o Gymraes a fu'n gefnogol i'w gŵr a oedd yn ddiplomat, ac a barhaodd gyda'i hymchwil i fathemateg drwy'i hoes. Roedd hi'n arloeswr ym



maes mathemateg 'fuzzy' - mathemateg amhendant. Diolchwyd i Gareth gan un o nifer o fathemategwyr y Gymdeithas, yr Athro Alun Morris. Rhoddodd Alun Morris her ar ddiwedd y cyfarfod - ym mha adnod yn y Beibl yn 3 Brenhinoedd y mae Π (Pye) yn ymddangos . . . Atebion i Alun Morris!

Y Parch Mark Ansell fu'n cyflwyno ei neges yn ystod Diolchgarwch y Gymdeithas eleni. Ei destun oedd: diolch a'r cyfle i fod yn ddiolchgar am fendithion Duw. Cafwyd cyfle i oedi, myfyrio a diolch am Dduw. Yng nghyfnod y Diolchgarwch, rhaid i bawb fod yn rhoi o wirfodd ei g(ch)alon. I'r rhai oedd yn bresennol, cyfeiriwyd at y pupur coch, oren a gwyrdd drwy neges bwrpasol effeithiol.

Cofiwch bod croeso i unrhyw un ymuno, o glydwch eich cartrefi. Mae'r ddolen yn cael ei hanfon allan gyda dolen y Sul cyn y cyfarfod ar y nos Lun, gan Eifion.

Nos Lun, 8 Tachwedd, byddwn yn croesawu Ann Wynne Griffith (un o gyn-blant Capel Seilo) o ben draw'r byd atom i roi sgwrs ar Heddwch Nain/Mam-gu yng Nghymru. Edrychwn ymlaen i'ch gweld a'ch croesawu bryd hynny.

Cymdeithas y Morfa Gwahoddiad

**A ydych yn mwynhau rhaglen y Gymdeithas y tymor hwn?
Gwahoddir chi i gyfrannu i goffrau'r Gymdeithas, gan nad
yw'n bosibl codi arian drwy'r dulliau arferol eleni eto.**

**Pris y rhaglen fyddai £4 pe byddech yn dymuno cyfrannu.
Anfonwch yr arian at ein Trysorydd, Ifor Davies, Coed y Pry,
Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, SY23 1HB Ffôn symudol:
07885 903162 neu'n uniongyrchol arlein i'r banc.**

Enw'r cyfrif: Cymdeithas y Morfa

Côd didoli: 40-08-09

Rhif y cyfrif: 41092391

SUT FEDR RHYWUN WERTHU'R AWYR?

Byddwn yn ystyried eich cynnig
I brynu ein tir
Beth yn union mae'r Dyn Gwyn yn dymuno ei brynu?
Bydd fy mhobl yn gofyn.

Sut fedr rhywun werthu'r awyr
Neu brynu cynhesrwydd y ddaear?
Mae hyn yn anodd ei ddychmygu.
Neu'r dŵr bywiog,
Suf fedrwech chi ei brynu oddi wrthym?
Maepob llechwedd o goed pinwydd yn disglerio yn yr haul.
Pob traeth tywdlyd a glan garegog yr afon,
Pob cwm serth a'r gwenyn yn hymian,
Neu niwloedd yn hofran mwn coedwigoedd tywyll,
I gyd wedi eu sancteiddio gan ryw ddigwyddiad
Er cof am ein hen bobl.

Rydym yn rhan o'r ddaear
A'r ddaear yn rhan ohonom ni.
Mae'r blodau persawrus yn chwiorydd i ni;
A'r carw, y ceffyl,
Yr eryrod mawr, yn frodyr i ni.
Ewin ton yn yr afon
Blodau'r meysydd yn egino
Chwys y ferlen a chwys dynion
Yn un.
Felly pan fydd y pennaeth mawr yn
Washington
Yn anfon neges i ddweud e fod yn
dymuno prynu'r pethau hyn,
Nid ydym yn ei ddeall.

CHIEF SEATTLE



Gweddi

Duw Goleuni

Arglwydd grasol,
goleuni'r byd a llewyrch ein heneidiau;
diolchwn i ti am wneud dy hun yn hysbys i ni
a'n harwain i'th adnabod yn dy Fab Iesu Grist.

Cadw ni rhag colli golwg arnat a baglu yn y tywyllwch.

Goleua ein meddyliau

i ni dy weld yn gliriach a chredu ynot gyda sicrwydd.

Goleua ein calonnau

i ni fwynhau bod yn dy gwmni a'th garu'n llwyrach.


Goleua ein gweithredoedd

i ni ddilyn yn ffyddlonach
ac ymateb yn ufudd i'th orchmynion.

Goleua bob un sydd mewn tristwch,
afiechyd, unigrwydd a gofid.

Llewyrcha ar eu llwybrau a gad iddynt,
yn dy oleuni, gerdded pob cam o'r daith
yn ddiogel;
trwy Iesu Grist dy Fab.
Amen

Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis



SULIAU TACHWEDD

7 Tachwedd - Eifion (capel a Zoom)

14 Tachwedd - Megan Williams (Zoom)

21 Tachwedd - Eifion (capel a Zoom)

28 Tachwedd - Aled Davies (Zoom)

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch

Os hoffech fynychu'r oedfa yn y Morfa - rhowch wybod i Dai Alun ymlaen llaw ar 624160



COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!
www.capelymorfa.cymru

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Trydar Capel y Morfa @capelymorfa, a chyfri Facebook